

Amgueddfa Cymru - Telerau ac Amodau Diogelu Digwyddiad

TELERAU AC AMODAU I GYFRANOGWYR/MYNYCHWYR DIGWYDDIADAU AR-LEIN

- Ni fyddaf yn recordio, tynnu llun, tynnu sgrinlun neu ffrydio'n fyw y digwyddiad/sesiwn ar-lein neu unrhyw ran ohono ac ni fyddaf yn rhannu delweddau (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: ffotograffau, sgrinluniau, recordiadau neu ffrwd fyw) o'r digwyddiad/sesiwn ar-lein.
- Ni fyddaf yn rhannu delweddau o'r digwyddiad/mynychwyr eraill.
- Rwyf yn deall y gallai fod gofynion/cyfyngiadau oedran a fydd yn berthnasol i'r digwyddiad/sesiwn ar-lein, ac rwy'n cadarnhau fy mod wedi ystyried y gofynion a'r cyfyngiadau. Wrth dderbyn y telerau a'r amodau hyn, rwyf yn cadarnhau fod y sesiwn ar-lein yn addas i fi fy hun a/neu unrhyw blentyn/plant o fewn fy ngofal a fydd yn mynychu'r digwyddiad/sesiwn ar-lein.
- Rwyf yn deall bod derbyn y telerau a'r amodau hyn yn golygu darparu caniatâd rhiant ar gyfer unrhyw ddigwyddiad/sesiwn ffrydio byw ar-lein gyda phobl o dan 18 mlwydd oed (os yn berthnasol) ac unrhyw ryngweithiad gyda sesiwn/digwyddiad ar-lein gyda phlant o dan 18 oed (os yn berthnasol).
- Rwyf yn deall fy mod yn gyfrifol am fy niogelwch a fy ymddygiad (gan gynnwys yr iaith yr wyf yn ei defnyddio) yn ystod unrhyw ddigwyddiad/sesiwn ar-lein yr wyf wedi mynychu/ cyfranogi ohono. Byddaf hefyd yn barhaus yn goruchwyllo ac yn gyfrifol am ddiogelwch ac ymddygiad unrhyw blentyn/plant yn fy ngofal sy'n mynychu'r digwyddiad/sesiwn ar-lein.
- Byddaf bob tro yn parchu eraill ac ni fyddaf yn gwneud unrhyw sylwadau neu anfon/rhannu unrhyw ddeunydd sydd, neu allai gael ei ystyried, yn fygythiol, yn ormesol, yn ymosodol a/neu'n anghyfreithlon.
- Byddaf yn gwisgo'n addas ar gyfer pob digwyddiad/sesiwn ar-lein.
- Ni fyddaf yn mynd ati'n fwriadol i chwilio am, lawrlwytho/ uwchlwytho na rhannu unrhyw ddeunydd sydd, neu gallai gael ei ystyried, yn fygythiol a/neu'n anghyfreithlon.
- Ni fyddaf yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol/cyfrinachol yn ymwneud â fi fy hun neu eraill, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i: rhif ffôn, cyfeiriad, cyfrineiriau cyfeiriad e-bost a/neu unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol gydag unrhyw un, heblaw bod aelod o staff yn gofyn i chi i wneud hynny yn ystod digwyddiad/sesiwn ar-lein.

- Ni fyddaf yn ymateb i geisiadau cyswllt oddi wrth unrhyw un nad ydwyf yn eu hadnabod neu drefnu i gwrdd yn y cnawd gydag unrhyw un y byddaf yn cwrdd â nhw yn ystod y digwyddiad/sesiwn ar-lein.

- Rwyf yn deall y bydd unrhyw sylwadau y byddaf yn eu gwneud/postio yn cael eu gweld gan eraill ac nad oes modd eu golygu na'u dileu.

- Os yw fy nghamera/gwe camera yn cael ei ddefnyddio byddaf yn sicrhau fy mod yn cyfranogi/mynychu o leoliad addas gan ystyried y cefndir, ongl y camera, preifatrwydd, ayyb. cyn ac yn ystod y digwyddiad/sesiwn ar-lein.

Caiff unrhyw ddata a/neu wybodaeth y bydd Amgueddfa Cymru yn ei gasglu wrthoch chi neu amdanoch chi at ddibenion cyflwyno'r sesiwn ar-lein ei brosesu a'i storio yn unol â Pholisi Preifatrwydd Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw gyfranogwyr o'r sesiynau ar unrhyw adeg ar gyfer unrhyw doriadau, neu doriadau posib, o'r amodau uchod.*

- Rwyf yn derbyn y telerau a'r amodau uchod a byddaf yn cadw atynt pan yn mynychu'r digwyddiad/sesiwn/au ar-lein.